Plismon Pentre: Sarjant Joseph Jones

Dechreuodd Sarjant Jones ei yrfa fel plismon yng Nghwrtnewydd ger Llanybydder. Symudodd i Bow Street yn 1909 ac yn 1920 fe'i dyrchafwyd yn Sarjant a'i symud yn ôl i dde y Sir – y tro hwn i Lambed. Daeth i Dal-y-bont yn 1923. Yn ogystal â gwasanaethu fel plismon pentre roedd Sarjant Jones hefyd yn Oruchwyliwr Pwysau a Mesurau. Yn y swydd hon roedd cyfrifoldeb ganddo am ran o Sir Aberteifi yn ymestyn o Landdewi Brefi i Dderwenlas. Bu'n cyflawni'r ddwy swydd hyd at 1933 ac yna gadawodd yr heddlu gan ganolbwyntio ar y gwasanaeth Pwysau a Mesurau ac fe fu Sargant Joseph Jones yn gwneud y gwaith hynny tan ei ymddeoliad ym 1956. Roedd holl deithio lleol Sarjant Jones yn cael ei wneud ar gefn beic. Roedd yn ŵr cydnerth dros un stôn ar bymtheg ac wrth gwrs fe fyddai ei weld ar patrol ar gefn y beic yn ardal Tal-y-bont yn ddigon i sicrhau cyfraith a threfn! Ar yr adeg honno – y dau ddegau cynnar – prin iawn oedd y ceir a bysiau hefyd yn olygfa anghyffredin. Felly os am fwrw gofal dros ei blwyf byddai'n rhaid i'r plismon droi at ei feic. Roedd pob plismon hefyd yn teithio at ei 'conference point' – rhyw fan ar ffin ei blwyf lle byddai'n cyfarfod â'r plismon drws nesaf. Byddai Sarjant Jones yn seiclo'n rheolaidd i Maesnewydd i'r de a draw i Ynyslas yn y Gogledd.

Papur Pawb, Ebrill 1985

Village Policeman: Sgt. Joseph Jones

Sgt. Jones started his career as a policeman in Cwrtnewydd near Llanybydder. He moved to Bow Street in 1909 and in 1920 he was promoted to sergeant and was moved back to the south of the county, this time to Lampeter. He came to Tal-y-bont in 1923. As well as serving as the village policeman Sgt. Jones was also the Weights and Measures Inspector. In this job he was responsible for the part of Cardiganshire which extended from Llanddewi Brefi to Derwenlas. He held both jobs until 1933 when he left the police to concentrate on the Weights and Measures Service and he continued with this work until his retirement in 1956. Sgt. Jones used his bike for all local travel. He was a well-built man, over 16 stone and, of course, seeing him on bike patrol in the Tal-y-bont area was enough to ensure law and order. In those days – the early twenties – there were not many cars and buses also were an unusual sight. Therefore to keep an eye on his patch the policeman had to use his bike. Every policeman also travelled to his conference point – a point at the edge of his patch where he would meet the next door policeman. Sgt. Jones cycled regularly to Maesnewydd in the south and over to Ynyslas in the north.

Papur Pawb, April 1985

Plismyn ar ddechrau'r ganrif: Sargeant Jones, Superintendent, P.C. Mathias (E.O. Jones)

Policemen at the beginning of the century: Sargeant Jones, Superintendent, P.C. Mathias (E.O. Jones)